Gweiddi

# Tasg 2

(Estynnol, sbardun 2)

Dewiswch yr ateb cywir bob tro.

1.
Mewn dau fis mae gwallt yn tyfu:
a) 3.5cm
b) 4cm
c) 2.5cm

2.
Ble mae corun eich pen?
a) uwchben eich clust dde
b) yng nghefn eich pen
c) reit ar dop eich pen

3.
Mae ewinedd eich traed...
a) yn tyfu'n gynt nag ewinedd eich dwylo
b) yn tyfu tua'r un cyflymder ag ewinedd eich dwylo
c) yn tyfu'n arafach nag ewinedd eich dwylo

4.
Os ydych chi'n llaw dde, bydd ewinedd eich llaw dde
a) yn tyfu'n arafach nag ewinedd eich llaw chwith
b) yn tyfu'n gynt nag ewinedd eich llaw chwith
c) yn tyfu tua'r un cyflymder ag ewinedd eich llaw chwith.

5.
Ystyr **o'r bôn i'r brig** yw:
a) o'r gwaelod i'r top
b) o'r chwith i'r dde
c) o'r dde i'r chwith

6.
Yn ystod pa dymor mae eich ewinedd yn tyfu gyflymaf?

a) yr hydref
b) yr haf
c) y gaeaf

7.
Yn ystod pa adeg o'ch bywyd mae eich ewinedd yn tyfu gyflymaf?
a) eich plentyndod
b) eich glaslencyndod
c) eich henaint

8.
Sut mae cael eich ewinedd i dyfu’n gynt?

a) rhoi eich dwylo yn eich pocedi
b) cadw eich dwylo’n llonydd
c) symud eich dwylo

9.
Pa un o’r bwydydd hyn sy’n dda i’ch ewinedd?

a) bisgedi
b) pasta
c) cnau

10.
Pam mae’r bwyd yng nghwestiwn 9. yn dda i’ch ewinedd?

a) oherwydd ei fod yn cynnwys braster
b) oherwydd ei fod yn cynnwys protein
c) oherwydd ei fod yn cynnwys carbohydradau